

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 28AIN O FEDI 2015 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Stanley Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Gwennan Hughes, Iwan Jones, Iona Edwards-Jones, Falmai Evans, Elfed Williams, Barri Evans, Hywel Davies, Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIAD: Y Cyngorydd Jill Evans.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 27ain o Orffennaf 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd e-bost oddi wrth Beiriannydd Traffig Cyngor Sir Ddinbych yn am dal o £100.00 am gost o gyfarfod safle a gwaith dylunio arwyddion pentref "Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch" er mwyn prisio'r arwyddion. Penderfynwyd yr aelodau i ganiatáu'r gost o £100.00.

B. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Bwyllgor Rheoli'r Adnoddau Cymunedol Llanrhaeadr am y rhodd o £1,500.00.

C. Derbyniwyd pris o £2,786.00 cyn Treth ar Werth am sylfaen i'r safle lloches bws yn Saron a phris o £3,020.00 cyn Treth ar Werth am y lloches bws. Penderfynwyd yr aelodau i dderbyn y prisiau ac i fwrw ymlaen gyda'r adeilad.

D. Derbyniwyd adroddiadau'r Cyngorwyr Iona Edwards-Jones a Joseph Welch ynglŷn ar gyfarfodydd diweddar brosiect "Cysylltiad Ffermydd Wynt Gogledd Cymru" a threfnwyd gan Yr Arolygiaeth Gynllunio" a oedd yn cynnwys cyfarfod safle.

E. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb gan Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am faterion ffyrdd y Cyngor a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

4. MATERION CYLLID.

A. Datganiad Banc - £18,373.00.

B. Derbyniwyd ail ran o'r 2015/16 Precept y Cyngor - £3,976.00.

C. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2015 - £360.00.

2. PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2015 - £90.00.

3. Un Llais Cymru - Ffi am fynychu Cynhadledd a Chyfarfod Blynnyddol 2015 - £75.00.

D. Derbyniwyd cais gan Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr tuag at gostau'r Bwrdd Hysbysu newydd yn yr Ysgol. Penderfynwyd yr aelodau am y rhodd o £350.00.

E. Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian gan Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen 2016. Penderfynwyd gadael ar y bwrdd hyd gyfarfod mis Mawrth 2016.

F. Mae'r Swyddfa Archwilio Cymru wedi apwyntio Cwmni BDO LLP o Southampton fel Archwiliwr Allanol Cyngorau Lleol Gogledd Cymru am y blynnyddoedd 2015/16, 2017/18 a 2018/19.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Derbyniwyd adroddiad bod y cais cynllunio wedi ei thynnu yn ôl i'r "Erection of switchgear building to export the electricity from Nant Bach Wind Farm to the 132kv transmission network".

B. Derbyniwyd gwybodaeth bod Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio am gais amlinell i breswyl unllaw'r yn "The Paddock", Cae'r Mynydd, Saron.

C. Ceisiadau cynllunio am sylwadau'r Cyngor Cymuned:-

1. Codi modurdai ac estyniad i'r ffin y datblygiad yn Fuarth Pentref Llach, Llanrhaeadr. Yr unig sylw gan yr aelodau oedd y deunydd y rendro'r adeilad.
2. Codi "Polytunnel" yn Rhewl Bach, Prion - dim gwrthwynebiad.
3. Tynnu amodau 4, 5 a 6 o'r cais cynllunio yn Tŷ Newydd, Saron. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ofyn am fanylion o'r amodau 4, 5 a 6 cyn rhoi sylwadau ar y cais cynllunio.
4. Gwaith ar wellhau'r briffordd ar y B4501 ar dir yn Brŷn Glas Depot, Saron. Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r cais a chytunodd y Cyngorydd Iona Edwards-Jones paratoi'r sylwadau i'r Clerc.
5. Cais newydd am Dyrbin Wynt ym Meifod, Saron. Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r cais a chytunodd y Cyngorydd Iona Edwards-Jones paratoi'r sylwadau i'r Clerc.
6. Codi dau Dyrbin Wynt ar dir yn Foel Uchaf, Cyffylliog. Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r cais a chytunodd y Cyngorydd Iona Edwards-Jones paratoi'r sylwadau i'r Clerc.

6. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd llythyr gan Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn am restr briffyrdd y gymuned am waith gwella ffyrdd yn y flwyddyn ariannol 2016/17. Penderfynwyd yr aelodau ar y ffyrdd canlynol:-

1. Ffordd rhwng Y Fron, Prion a Ffordd Fawr, Saron.
2. Ffordd rhwng Graig Lwyd a Llewesog Lodge ym Mhrion.
3. Ffordd Drws-y-Buddel yn Saron.
4. Ffordd rhwng Capel Saron a Phentref Saron.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gofyn i'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am ymateb i'r materion ffyrdd y Cyngor a thrafodwyd yng nghyfarfodydd misoedd Mehefin a Gorffennaf y Cyngor.

B. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar leoliad chasglu a disgyn plant ysgol ym mhentref Llanrhaeadr. Penderfynwyd yr Aelodau i asesu'r sefyllfa a adroddi yn ôl yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Lun 26ain o Hydref 2015 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.